# Rheoli a chynnal a chadw stiwardio yn y mannau penodedig



## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gofalu bod y stiwardio yn effeithiol yn y man rydych yn gyfrifol amdani, mynd i'r afael ag unrhyw broblemau caiff eu cyfeirio atoch chi yn briodol a holi stiwardiaid yn dilyn y digwyddiad.

Prif ddeilliannau'r safon hon ydy:

1. Rheoli a chynnal a chadw stiwardio yn y man penodedig
2. Holi stiwardiaid a gwirio'r lleoliad a chyfarpar

Mae'r safon hon ar gyfer uwch stiwardiaid a goruchwylwyr sy'n gweithio mewn digwyddiadau chwaraeon neu ddigwyddiadau eraill a mannau poblog lle mae gwylwyr neu gynulleidfaoedd.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

**Rheoli a chynnal a chadw stiwardio yn y man penodedig**

1. monitro a chefnogi'r stiwardiaid yn y man penodedig
2. pennu'r nifer angenrheidiol o stiwardiaid i'r mannau penodedig
3. rheoli a chynnal **anghenion** diogelwch a **lles** yr holl **grwpiau cleient** yn eich man penodedig chi
4. rhoi gwybod am unrhyw drafferthion yn ymwneud â'ch gweithrediadau stiwardio i'r cydweithiwr cyfrifol gan gydymffurfio gyda'r gweithdrefnau wedi'u cytuno
5. cadw cofnod o'r holl weithrediadau gan gydymffurfio gyda'r gweithdrefnau wedi'u cytuno
6. cynnig cyfarwyddiadau parhaus i'r stiwardiaid yn unol â chynllun y digwyddiad

**Holi stiwardiaid a gwirio'r lleoliad a'r cyfarpar**

1. derbyn yr wybodaeth angenrheidiol ar gyfer holi'r stiwardiaid
2. annog y stiwardiaid i gynnig adborth cadarnhaol a negyddol ynglŷn â'r digwyddiad a threfniadau
3. gofalu caiff yr holl helyntion yn eich man penodedig eu cyflwyno a'u cofnodi'n drylwyr
4. cydymffurfio gyda'r gweithdrefnau wedi'u cytuno ynghylch derbyn cyfarpar yn ôl gan stiwardiaid
5. dilyn gweithdrefnau wedi'u cytuno ynghylch gwirio a diogelu'r lleoliad
6.

cofnodi a chyflwyno problemau yn ymwneud â'r cyfarpar a'r lleoliad i'r cydweithiwr cyfrifol

7.

cynnig gwelliannau posib i brosesau diogelwch ac amddiffyniaeth a gwasanaethau a'u cyflwyno i'r bobl berthnasol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

**Rheoli a chynnal a chadw stiwardio yn y man penodedig**

1. y gweithdrefnau ynghylch monitro yn y man penodedig
2. nifer y stiwardiaid a'u sgiliau angenrheidiol yn y man penodedig a'u dyletswyddau penodol
3. pwysigrwydd deall ymddygiadau stiwardiaid ac effaith posib hyn ar eu perfformiad a'r **grwpiau cleient**
4. pwysigrwydd cynnal a chadw diogelwch a lles yr holl **grwpiau cleient**
5. dulliau cyfathrebu
6. dulliau cofnodi
7. pa awgrymiadau a thechnegau i'w defnyddio wrth gyflwyno cyfarwyddiadau i stiwardiaid
8. pwysigrwydd sgiliau arwain effeithiol

**Holi stiwardiaid a gwirio'r lleoliad a chyfarpar**

1. pwysigrwydd holi a sut i gynnal sesiwn holi
2. sut i dderbyn yr wybodaeth angenrheidiol ar gyfer sesiwn holi
3. pa wybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer y sesiwn holi
4. ffyrdd o annog y stiwardiaid i gynnig adborth cadarnhaol a negyddol ynghylch y digwyddiadau a'r trefniadau
5.

gweithdrefnhau'r mudiad ar gyfer cofnodi helyntion

6.

y gweithdrefnau wedi'u cytuno ar gyfer y canlynol:

7.

derbyn cyfarpar yn ôl gan y stiwardiaid

8. gwirio'r lleoliad a gofalu ei fod yn ddiogel

9.

cofnodi a chyflwyno problemau yn ymwneud â'r cyfarpar a'r lleoliad i'r cydweithiwr cyfrifol

10.

pam ei fod yn bwysig awgrymu gwelliannau posib i ddiogelwch, amddiffyniaeth a gwasanaethau ac i bwy ddylech chi awgrymu'r gwelliannau hyn

## Cwmpas/Ystod

### GWYBODAETH YCHWANEGOL

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Mae disgwyl y bydd gan fudiadau weithdrefnau a chanllawiau i'w staff stiwardio gydymffurfio gyda nhw a fydd yn bodloni'r gofynion canlynol o leiaf:

- anghenion corfforol amrywiol
- anghenion diwylliannol amrywiol
- anghenion ieithyddol
- credoau

**Diogelwch, Amddiffyn a Gwasanaeth**

Mae disgwyl caiff yr holl wasanaethau mewn digwyddiadau gyda gwylwyr ac mewn mannau poblog eu cyflawni yn unol â'r mesurau isod:

Mesurau diogelwch: unrhyw fesur a gaiff eu dylunio a'u rhoi ar waith gyda'r prif nod o ddiogelu iechyd a lles yr holl grwpiau cleient sy'n mynychu, neu'n cymryd rhan mewn digwyddiadau.

Mesurau amddiffyn: unrhyw fesur a gaiff eu dylunio a'u rhoi ar waith gyda'r prif nod o atal, lleihau'r risg a/neu ymateb i unrhyw weithgareddau troseddol neu anghyfreithlon neu aflonyddwch yn gysylltiedig â'r digwyddiadau.

Mesurau gwasanaeth: unrhyw fesur a gaiff eu dylunio a'u rhoi ar waith gyda'r prif nod o ofalu bod yr holl grwpiau cleient yn teimlo'n gyfforddus, wedi'u gwerthfawrogi a bod croeso iddyn nhw pan maen nhw'n mynychu digwyddiadau.

**Lefelau Bygythiadau Terfysgaeth ym Mhrydain**

Mae disgwyl bod uwch stiwardiaid, swyddogion diogelwch a staff tebyg sy'n meddu ar gyfrifoldeb cyffredinol dros ddiogelwch ac amddiffyniaeth digwyddiadau yn gyfarwydd gyda'r lefelau bygythiadau terfysgaeth cyfredol ym Mhrydain.

Mae'r lefel o fygythiad yn dynodi tebygolrwydd o ymosodiad terfysgol ym Mhrydain.

Mae 5 lefel o fygythiadau:

- ISEL – mae ymosodiad yn annhebygol
- CYMEDROL- mae ymosodiad yn bosib ond nid ydyw'n debygol
- SYLWEDDOL – mae ymosodiad yn bosib iawn
- DIFRIFOL – mae ymosodiad yn debygol iawn
- ARGYFYNGUS – mae disgwyl y bydd ymosodiad ar ddigwydd

Caiff y lefel ei bennu gan y Cyd-Ganolfan Dadansoddi Terfysgaeth a'r Gwasanaeth Diogelwch  (MI5). Does gan lefelau bygythiol ddim dyddiad dod i ben ond fe allan nhw newid ar unrhyw adeg wrth i wahanol wybodaeth fod ar gael i asiantiaid diogelwch.

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

**Helyntion** (ymdrin â lleiafswm o 4)

1. ymddygiad anghyfreithlon, afreolus neu wrth-gymdeithasol
2. sefyllfaoedd peryglus yn y dorf
3. digwyddiad diogelwch
4. tân
5. methiant strwythurol
6. cyfarpar diffygiol
7. argyfyngau meddygol

**Grwpiau cleient** (ymdrin â 4 o leiaf)

1. gwylwyr
2. y gweithlu
3. contractwyr
4. cyrff rheoleiddiol
5. y cyfryngau
6. gwasanaethau argyfwng
7. athletwyr
8. artistiaid
9. swyddogion y digwyddiad

* *

**Anghenion lles** (ymdrin â 2 o leiaf)

1. diogelwch personol
2. lles emosiynol
3. lles corfforol
4. anghenion diwylliannol

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â  gwybodaeth a dealltwriaeth

**** **Grwpiau cleient** 1.  gwylwyr 2.  y gweithlu 3.  contractwyr 4.  cyrff rheoleiddiol 5.  y cyfryngau 6.  gwasanaethau argyfwng 7.  athletwyr 8.  artistiaid 9.  swyddogion y digwyddiad

## Ymddygiadau

Mae'r ymddygiadau canlynol wrth wraidd cyflenwi gwasanaethau yn y sector diogelwch i wylwyr. Mae'r ymddygiadau yn sicrhau bod y mudiad a'r unigolyn yn creu argraff dda ar y cleientiaid.

Mae'n rhaid ichi ddangos eich bod yn cyflawni'r canlynol yn gyson:

1. Adnabod yr angen i fod yn hyblyg er mwyn dwyn i ystyriaeth amgylchiadau newidiol
2. Addasu cynlluniau ac ymatebion fel bo'r angen
3. Blaenoriaethu amcanion a gwaith cynllunio er mwyn manteisio ar y defnydd gorau posib o amser ac adnoddau
4. Gofalu bod amser i gefnogi eraill
5. Cymryd cyfrifoldeb personol dros weithredu rhai pethau
6. Dangos gonestrwydd, tegwch a chysondeb wrth wneud penderfyniadau
7. Cytuno'n eglur ar beth a ddisgwylir gan bobl eraill a'u hystyried nhw'n gyfrifol am herio ymddygiad cymdeithasol er enghraifft.
8. Ceisio deall disgwyliadau pobl ac unrhyw anghenion ychwanegol a medru bodloni'r rhain
9. Cymryd cyfrifoldeb dros ddiogelwch personol
10. Cymryd balchder mewn cynnig gwasanaeth o safon
11. Ymdrechu i fod yn wyliadwrus rhag bygythiadau a pheryglon posib
12. Annog a chefnogi eraill i fanteisio i'r eithaf ar eu galluoedd.
13. Defnyddio ystod o ddulliau arwain sy'n briodol i wahanol bobl a sefyllfaoedd
14. Eirioli dros ddiogelwch a lles fel blaenoriaeth wrth gynllunio a rheoli digwyddiadau
15. Cymryd balchder yn eich edrychiad a chydymffurfio gydag unrhyw godau gwisg gan y mudiad neu leoliad
16. Cydymffurfio gyda chod ymddygiad y lleoliad

17. Dangos eich gallu i gynnal cyfrinachedd

18. Dangos ymwybyddiaeth o faterion diogelu

19. Dangos dealltwriaeth o ofynion cyfreithiol sylfaenol yn ymwneud ag amrywioldeb a diogelwch

## Sgiliau

Dyma restr o'r prif sgiliau a nodweddion cyffredinol sydd eu hangen er mwyn gofalu am ddiogelwch gwylwyr

1. Gwrando a gweithredu
2. Cyfathrebu geiriol ac aneiriol effeithiol
3. Dylanwadu ar ac argyhoeddi eraill
4. Dirprwyo
5. Diplomyddiaeth
6. Empathi
7. Rhoi grym i eraill
8. Gallu i ddilyn cyfarwyddiadau
9. Arwain drwy esiampl
10. Gwydnwch
11. Rheoli ymddygiad heriol
12. Mentora
13. Ysgogi eraill
14. Trafod a chyfaddawdu
15. Derbyn a chynnig adborth
16. Cynllunio a gwerthuso
17. Gwerthfawrogi a chefnogi eraill

## Geirfa

---

**Safonau a gweithdrefnau y cytunwyd arnyn nhw**

Gweithdrefnau wedi'u cymeradwyo eisoes sy'n gofnod o weithrediadau'r lleoliad o ddydd i ddydd. Gall fod yn weithdrefnau gweithredu arferol, gweithdrefnau mewn argyfwng a chynlluniau wrth gefn. Mae hyn yn ymwneud â gofynion y lleoliad ynghyd â

gofynion cyfundrefnol.

*

*

**Cynorthwywyr cymwys**

Rhywun gaiff ei ystyried yn alwedigaethol gymwys yn eu dyletswydd benodol. Er enghraifft: y swyddog cymorth cyntaf ar y safle neu aelod o'r gwasanaethau argyfwng.

## Cysylltiadau â SGC eraill